

ADEILADU

Adeiladwch yrfa ym myd adeiladu; y 5ed diwydiant mwyaf yng Nghymru. Dilynwch yrfa ym myd adeiladu; o'r cartrefi rydym yn byw ynddynt i'r ffyrdd rydym yn gyrru arnynt, mae ystod o swyddi ar gael ar lefelau gwahanol.

Cymerwch olwg ar y swyddi sydd ar gael yn y sector hwn:

Gosod Brics

Yn union fel yr awgryma'r teitl, mae gosodwyr brics yn gosod brics, blociau concridd a deunyddiau eraill i adeiladu neu atgyweirio waliau, llefydd tân etc. Os nad oes gwahaniaeth gennych weithio yn yr awyr agored, yna dyma'r dewis i chi.

Sylfeini

Byddwch yn paratoi safle cyn i'r adeiladu gychwyn; gosod sylfeini, gosod pibwaith a gofalu dros ddraenio a cherrig llawr. Mae'r rôl hon yn sylfaenol ar ddechrau'r adeiladu.

Plastro

Gan ddefnyddio cot amddiffynol o blastr, byddwch yn paratoi'r waliau tu mewn cyn addurno. Mae angen lefel penodol o ffitrwydd gan y gallai fod yn waith corfforol caled.

Plymio

Byddwch yn fedrus mewn pibwaith a thiwb i osod ac atgyweirio systemau gwres, draenio a dŵr yfed etc. Gallech weithio mewn sefyllfaoedd domestig a masnachol.

Peintio ac Addurno

Byddwch yn perffeithio'r cyffyrddiadau olaf, yn fewnol ac allanol, i strwythurau cadarn

at y dyfodol - o gartrefi i bontydd a chychod! Dyma'r yrfa i chi os ydych yn greadigol ac yn hoffi ymfalchio yn eich gwaith.

Gwaith Coed a Gwaith Saer


Gan weithio gyda'i gilydd, mae seiri yn gwneud y fframiau coed (megis drysau, ffenestri) sy'n cael eu defnyddio gan weithiwr coed i adeiladu'r elfennau adeiladu. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys gosod, adeiladu ac atgyweirio strwythurau a darnau gosod a wneir gan bren a deunyddiau cyffelyb eraill.

Gosodiad Trydanol

Rhoi'r sbarc yn ein cartrefi, swyddfeydd a ffermydd hyd yn oed! Mae trydanwyr yn gweithio gyda cheblau, gosodiadau goleuadau a switshis sy'n defnyddio cyflenwad pŵer. Cewch eich addysgu am y safonau diogelwch diweddaraf, gan gynnig gwasanaeth dibynadwy i gwsmeriaid.

Peirianeg Sifil

Mae peirianwyr sifil wir yn siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo; dylunio ac addasu ein ffyrdd, rheilffyrdd a phontydd i redeg yn effeithiol. I fod yn beiriannwr sifil, byddwch yn wych am ddatrys problemau ac yn mwynhau mathemateg a ffiseg.



£31K
CYFLOG
NODWEDDIADOL
AR GYFARTALED
YN Y DIWYDIANT
HWN

Dolenni Defnyddiol

www.citb.co.uk/bconstructive
Prentisiaethau gyda CITB, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant dros Adeiladwaith
www.careersinconstruction.com
Safle swyddi sy'n arddangos y gyfaoedd presennol mewn adeiladwaith
www.goconstruct.org Gwybodaeth ar y sector adeiladwaith

**MAE DISGWYL CYNNYDD O 11% MEWN
SWYDDI PLYMIO, GWRESOGI A NWW YN NE
DDWYRAIN CYMRU YN UNIG ERBYN 2030**



(ffynhonnell EMSI 2021)

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Lefel	BG	DC
Peirianeg Sifil	3		✓
Sgiliau Adeiladu (Aml-sgiliau)	1	✓	✓
Gosodiad trydanol	3	✓	✓
Cwrs Sylfaen mewn Gosod Brics	2	✓	✓
Cwrs Sylfaen mewn Gwaith Coed a Saerniaeth	2	✓	✓
Cwrs Sylfaen mewn Gosodiadau Trydanol	2	✓	✓
Cwrs Sylfaen mewn Peintio ac Addurno	2	✓	✓
Cwrs Sylfaen mewn Plymio	2	✓	✓
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Gosod Brics	2	✓	✓
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Gwaith Coed ar Safle	2	✓	✓
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Systemau Electro-dechnegol a Gosod Cyfarpar	2	✓	✓
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Peintio ac Addurno	2	✓	✓
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Plymio a Gwresogi	2	✓	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | Helo@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / DC - Campws Dinas Casnewydd

